

Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Gyda thristwch y daeth y newyddion am farwolaeth Falmai Lloyd Evans (Saron) ddechrau mis Awst. Roedd ganddi bersonoliaeth hoffus, a chyfrannodd yn helaeth i'r gymuned ac i fywydau cymaint o bobl eraill ar hyd y blynyddoedd. Er na fu'r 14 mlynedd diwethaf yn hawdd iddi hi na'r teulu, wynebodd hwy yn ddewr a di-gŵyn, a mawr fu gofal ei theulu ohoni. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i gŵr, Gwyndaf; y plant – Gari, Isaac ac Eluned; ei rhieni – Glyn a Myra Davies; ei chwiorydd a'r teulu estynedig i gyd. Gweddiwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu galar, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt.

Yn yr un modd cydymdeimlwn ag Eurgain Jones (Llansannan) a'r teulu i gyd yn dilyn marwolaeth ei mam, Mrs Margaret Jane Edwards. Fe'u cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan hyderu y bydd nerth a chariad Duw ei hun yn eu cynnal y dyddiau hyn.

Cofiwn am eraill sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf hefyd. Cyflwynwn hwythau hefyd yn dyner i ofal Duw gan weddio y byddant yn adnabod Ei ddaioni yn eu hamgylchynu.

Mae eraill wedi gorfod wynebu profiadau anodd dros yr haf. Cofiwn amdanynt yn ein gweddiâu a hyderwn y byddant yn profi gofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu trwy'r cyfan oll.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at y cleifion yn ein plith. Mae Llinos Hughes (Cefn Berain) yn parhau i gael gofal yn yr Inffirmari, ac mae Richard M. Jones (Cefn Berain) yn ei ôl yno hefyd ers ychydig wythnosau. Fe dreuliodd Gruffydd Jones (Llansannan) ychydig wythnosau yn Ysbyty Gobowen yn dilyn ei lawdriniaeth ddechrau gwyliau'r haf, a bu Iorwen Roberts a Trebor Roberts (Llansannan), a John Ll. Evans (Cefn Meiriadog) yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn i bob un ohonynt ac i bawb arall sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn.

Hyfryd yw cael llongyfarch Gareth a Lowri Evans (Henllan) ar enedigaeth merch, Lleucu Fflur, chwaer fach i Lliwen a Caron. Yr un yw'n llongyfarchion i Mona Williams (Llansannan) a Gerwyn ar enedigaeth merch, Ela Mair. Dymunwn fendith Duw ar y ddau deulu.

Llongyfarchiadau hefyd a phob dymuniad da i Sioned Mai Williams (Hiraethog) a Guto Owen o Langernyw ar eu dyweddiad. Gweddiwn fendith Duw arnynt hwythau.

Dymuniadau gorau i Aled Wyn Williams (Hiraethog) a Sioned o Ysbyty Ifan fydd yn priodi ar yr 17^{eg} o Fedi. Gweddiwn y cânt ddiwrnod cofiadwy, ac am fendithion lu i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Dyfyr Tudor (Henllan) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ganol mis Medi!

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 4 Medi 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Beth mae mis Medi yn ei arwyddo i chi? Os ydych chi'n debyg i mi, mis paratoi yw Medi, y cyfnod o'r flwyddyn sy'n fy sbarduno i fod yn barod ar gyfer y newid sydd i ddod. Bydd y shorts yn dychwelyd i'r drôl a minnau'n ceisio gwneud yn siŵr bod digon o danwydd i'n cadw'n gynnes pan ddaw'r oerfel! Ond wrth fynd ati eleni, does dim modd osgoi'r cynnydd eithriadol ym mhrisiau nwyddau a gwasanaethau angenrheidiol. Yn ôl y rhybuddion bydd pris arferol trydan i gartrefi yn codi 80% yn fuan, sy'n siŵr o arwain at wasgfa bryderus i nifer fawr o deuluoedd a busnesau. Beth allwn ni ei wneud? Rhaid i ni fod yn ddoeth fel unigolion, teuluoedd ac eglwysi gan gofio bod Cristnogion o'r cyfnod cynharaf wedi cael eu siarsio i beidio anghofio'r tlodion (Galatiaid 2:10), a bod gofyn i ni roi 'ar sail yr hyn sydd gan rywun, nid yr hyn nad yw ganddo.' (2 Corinthiaid 8:12). Ac i'r rhai sydd mewn gwir angen, cofiwn fod yna elusennau a sefydliadau sy'n barod i helpu'n ymarferol ac yn emosynol – dyma restr fer o rifau ffôn a gwefannau defnyddiol:

- Samariaid: Llinell Gymraeg: 0808 164 0123 • RABI: 0800 188 4444
- Christians Against Poverty: www.capuk.org • Sefydliad DPJ: 0800 587 4262
- Banc Bwyd Dinbych: www.valeofclwyd.foodbank.org.uk

Dros y misoedd nesaf bydd penderfyniadau digon anodd yn wynebu nifer, ond i eraill mae'r sefyllfa'n frawychus gan nad oes ganddynt opsiynau ar ôl. Gyda'r cynnydd mewn prisiau mor enfawr, a heb obaith am ragor o arian, maent wedi'u dal mewn caethiwed sy'n egluro pam fod cymaint yn galw ar y llywodraeth i gamu i'r adwy. Wrth feddwl yn y termau hynny, dyna'r darlun a welwn yn y Beibl hefyd. Fel dynoliaeth rydym mewn caethiwed druenus i bechod a'n ffyrdd hunan-ganolog o fyw ein bywydau. Ond yn wahanol i'r argyfwng costau byw, nid llywodraeth ddynol sydd am ein hachub, ond llywodraethwr daer a nef. Yn Iesu Grist mae gennym Frenin sydd wedi gweld ein cyflwr, ac wedi ymateb yn drugarog. O'i fawr gariad bu'n barod i dalu'r pris ar y Groes am ein crwydro, er mwyn ein rhyddhau i fywyd newydd o gariad, gwasanaeth a diolchgarwch. Wrth wynebu'r cyfnod ansicr nesaf, cofiwn fod gennym Un y gallwn droi ato ym mhob argyfwng, ac a ddywedodd wrth ei ddisgyblion: "Wnes i ddim disgwyl i bobl eraill fy ngwasanaethu i, er mai fi ydy Mab y Dyn; des i fel gwas i aberthu fy mywyd er mwyn talu'r pris i ryddhau llawer o bobl." (Marc 10:45 Beibl.net)



Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Medi 4^{ydd}

- **Oedfa yn Llanfair** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad Dr Owain Edwards. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa yn Groes.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Mr Celfyn Williams.
- **Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog** am 2:00.

Dydd Mawrth, Medi 6^{ed}

- **Paned a Sgwrs yn Ffestri Llansannan** am 1:30 y pñawn. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Gwener a Dydd Sadwrn, Medi 9^{fed} a 10^{fed}

- **Penwythnos o fawl a chyfansoddi, a lansio albwm newydd Adlais** yng Ngholeg y Bala yng nghwmni Cadi Gwyn a Meilyr Geraint a'r band.
 - **Nos Wener:** Noson o Fawl a Chymdeithas
 - **Bore Sadwrn:** Seminar am addoliad a chalon Adlais dros 'addoliad cyfoes Cymraeg'
 - **Prynhawn Sadwrn:** Gweithdy cyfansoddi caneuon
 - **Nos Sadwrn:** Y cyfle cyntaf i glywed caneuon newydd Adlais yn fyw, a chyfle i foli.

Beth bynnag eich dawn, os yw addoliad ar eich calon mewn unrhyw ffordd, croeso i chi ymuno naill am y penwythnos cyfan neu'r Sadwrn yn unig. Y gost fydd £40 am y penwythnos; bydd hyn yn cynnwys gwely a brecwast nos Wener a'r holl brydau bwyd, neu £25 am y Sadwrn yn unig ac yn cynnwys cinio a swper. Bydd modd aros nos Sadwrn hefyd am gost o £20. Archebwch eich lle trwy lenwi'r ffurflen yma: <http://colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg>. Croeso i chi ffonio neu e-bostio os oes gennych unrhyw gwestiwn (01678 520565/ colegybala@ebcpcw.org.uk).

Dydd Sadwrn, Medi 10^{fed}

- **Cyfarfod Gwobrwyo Ffyddloniaid yr Ysgol Sul â'r Fedal Gee** yn Yr Hen Gapel, Llanuwchllyn LL23 7TR am 2.00. Croeso cynnes i bawb ymuno. Bydd caredigion y capel yn darparu paned o de i bawb fydd yn bresennol yn dilyn y gwasanaeth. Bydd nifer yn derbyn Medal Gee am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul ac yn eu plith, Nesta Evans a Myra Davies (Saron); Lloyd a Heulwen Edwards, a Gwynfor a Meinir Jones (Groes); a Beryl Morris (Cefn Berain). Llongyfarchiadau mawr iddynt. Diolchwn am eu cyfraniad ar hyd y blynyddoedd, ac am bawb arall sy'n cynnal a diogelu gwaith yr Ysgol Sul yn ein heglwysi.

Dydd Sul, Medi 11^{eg}

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Robert O. Roberts.
- **Oedfa Deulu yn Llanefydd** am 9:30 o dan arweiniad Rhodri. Bydd **Ysgol Sul y plant** yn cydreddeg.
- **Ysgol Sul yn Henllan** am 10:00 ac **Oedfa Gymun** o dan arweiniad Rhodri am 11:00.
- **Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog** am 2:00.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

Dydd Mawrth, Medi 13^{eg}

- **Cyfarfod Gweddi 'Gwreiddiau'** am 7:00 yr hwyr ar Zoom. (I ymuno, ewch i dudalen flaen www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Cyfarfod Gweddi'.)

Dydd Sul, Medi 18^{fed}

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Robinson.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Dafydd Job. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Groes am 10:15.
- **Oedfa yn Saron am 10:00 ac yn Nantglyn** am 2:00 y prynhawn o dan arweiniad Rhodri.
- **Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog** am 2:00.
- **Oedfa'r Fro yn Llansannan** am 6:00 yr hwyr gyda Rhodri yn pregethu.

Rhaghysbysiad

Bydd y cyfarfod nesaf o **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cael ei gynnal yng Nghapel y Rhiw, Pwllglas **dydd Sadwrn, Hydref 1^{af}**. Bydd eisteddiad o'r Henaduriaeth ac ymddiddan â'r blaenor newydd am 3:00 y prynhawn, ac yna oedfa gyhoeddus am 6:00 yr hwyr pryd y bydd blaenoriaid yn cael eu llongyfarch am hir wasanaeth a'r blaenor newydd yn cael ei ordeinio.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (14^{eg}), os gwelwch yn dda.